Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru**

**South Wales** Fire and Rescue Service

**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

Diolch am ddatgan eich diddordeb yn y swydd uchod.

**<u>Y Pecyn Ymgeisio</u>**

O fewn y pecyn hwn, ceir:

- Hysbyseb Swydd
- Disgrifiad Swydd
- Manyleb Person
- Ffurflen Fonitro Cydraddoldeb
- Rheol Sefydlog Gyffredinol 15 – Penodi Staff

**<u>CV</u>**

Os hoffech chi gael eich ystyried ar gyfer y rôl hon, bydd angen i chi gyflwyno CV. Mae'n bwysig eich bod chi'n darparu tystiolaeth glir i gefnogi pob maes y tynnir sylw ato yn y Manyleb Person. Rhowch enghreifftiau ymarferol o'ch profiad gwirioneddol lle bo hynny'n bosibl. Dylai hyn fod yn seiliedig ar eich sgiliau, eich gwybodaeth, eich profiad a'ch galluoedd sy'n berthnasol i'r swydd. Nodwch y bydd y Meini Prawf Hanfodol sy wedi'u marcio gyda seren* yn cael eu defnyddio ar gyfer llunio rhestr fer. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth yn erbyn pob un o'r meini prawf hyn, gan ddefnyddio dim mwy na 500 o eiriau ar gyfer pob un.

Er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i ddatblygu cyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth, llenwch y Ffurflen Monitro Cydraddoldeb, sy'n ffurfio rhan o'r cais hwn. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn gyfrinachol a chaiff ei defnyddio at ddibenion monitro yn unig, yn hytrach nag ar gyfer dibenion dethol.

Tynnir eich sylw at Reol Sefydlog Gyffredinol (RhSG) yr Awdurdod 15.5 a 15.6 – Penodi Staff sy'n ymwneud ag ymdrechion i ddylanwadu ar benodiad yn ogystal ag ymgeiswyr sy'n gysylltiedig ag unrhyw Aelod neu Uwch Swyddog o'r Awdurdod. Amgaeir copi gyda'r pecyn cais er eich sylw.

Dylid dychwelyd ffurflenni cais gorffenedig drwy law e-bost i Deborah Doel, Rheolwr Adnoddau Dynol, Recriwtio ac Asesu ar y cyfeiriad isod:-
d-doel@southwales-fire.gov.uk

Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei sgrinio am ei addasrwydd i ymgymryd â'r rôl a gofynnir iddo gwblhau Holiadur meddygol. Bydd yr Adran Iechyd

Galwedigaethol yn asesu'r ffurflen a gallai fod angen i chi fynychu archwiliad meddygol.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **12:00 ganol dydd, Ddydd Gwener y 10fed o Awst 2018.**

Bydd manylion pellach am y broses ddethol a'r cyfweliad ffurfiol yn cael eu rhoi i ymgeiswyr sy’n cyrraedd y rhestr fer.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y broses hon, mae croeso i chi gysylltu â mi ar y rhif uchod.

Deborah Doel, Rheolwr Adnoddau Dynol (Recriwtio ac Asesu):
d-doel@southwales-fire.gov.uk ffôn 01443 232116

Rachel Evans, Rheolwr Recriwtio a Atyniad Cynorthwyol:
r3-evans@southwales-fire.gov.uk ffôn 01443 232102